



Agriculture & Horticulture  
DEVELOPMENT BOARD

Mr A Lloyd Jones  
Development Officer  
Central Government and Justice Unit  
Welsh Language Board  
Lon Parcwr Industrial Estate  
RUTHIN  
Denbighshire  
LL15 1NJ

27 July 2011

Dear Mr Lloyd Jones

The Agriculture and Horticulture Development Board operates across the UK. Our purpose is to make the six commodity sectors we support more competitive and sustainable.

Covering about 75% of total agricultural output in the United Kingdom (UK), we support:

- i) Pig meat in England – through our BPEX Division
- ii) Milk in Great Britain (GB) – through our DairyCo Division
- iii) Beef and lamb in England – through our EBLEX Division
- iv) Commercial horticulture in GB – through our HDC Division
- v) Cereals and oilseeds in the UK – through our HGCA Division
- vi) Potatoes in GB – through our Potato Council Division

Mr A Lloyd Jones  
Swyddog Datblygu  
Uned Llywodraeth Ganol a Chyfiawnder  
Bwrdd yr Iaith Gymraeg  
Ystad Ddiwydiannol Lon Parcwr  
RHUTHUN  
Sir Ddinbych  
LL15 1NJ

27 Gorffennaf 2011

Annwyl Mr Lloyd Jones

Mae'r Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB) yn gweithredu ar draws y DU. Ein pwrpas yw gwneud y chwe sector nwyddau a gefnogwn yn fwy cystadleuol a chynaliadwy.


Rydym yn ymdrin ag oddeutu 75% o'r cynnyrch amaethyddol cyfan yn y Deyrnas Unedig (DU), gan gefnogi:

- vii) Cig moch yn Lloegr – drwy ein Hadran BPEX
- viii) Llaeth ym Mhrydain Fawr (PF) – drwy ein Hadran DairyCo
- ix) Cig eidion a chig oen yn Lloegr – drwy ein Hadran EBLEX
- x) Garddwriaeth fasnachol yn PF – drwy ein Hadran HDC
- xi) Grawnfwydydd a hadau olew yn y DU – drwy ein Hadran HGCA
- xii) Tatws ym Mhrydain Fawr – drwy ein Hadran Cyngor Tatws

Our two red meat operating divisions cover England only and are outside the scope of our Welsh Language Scheme. The very limited number of levy payers based in Wales for our Horticulture, Potatoes and Cereals/Oilseeds divisions prompted the Welsh Language Board in a letter dated 12 December 2008 to “confirm that the HGCA, the Horticulture Development Company and the Potato Council will only be expected to produce information and material in the Welsh language if they are undertaking a specific project aimed solely at the public in Wales.”

The report on the following pages reflects the good progress AHDB has made over the last year in building on our compliance and activity in line with the commitments we make in our Welsh Language Scheme.

Yours sincerely




**Tom Taylor**  
**Chief Executive**

Mae ein dwy adran weithredu cig coch yn ymwneud â Lloegr yn unig ac nid ydynt yn berthnasol i'n Cynllun Iaith Gymraeg. Am mai nifer gyfyngedig iawn o dalwyr ardollau sydd wedi'u seilio yng Nghymru ar gyfer ein hadrannau Garddwriaeth, Tatws a Grawnfwydydd/Hadau Olew, anfonodd Bwrdd yr Iaith lythyr yn ddyddiedig 12 Rhagfyr 2008 yn “cadarnhau na fyddai disgwyl i'r HGCA, y Cwmni Datblygu Garddwriaeth a'r Cyngor Tatws gynhyrchu gwybodaeth a defnyddiau yn yr iaith Gymraeg heblaw eu bod yn cynnal prosiect penodol sydd wedi'i anelu at y cyhoedd yng Nghymru yn unig.”

Mae'r adroddiad ar y tudalennau dilynol yn adlewyrchu'r datblygiad da a gafwyd gan AHDB dros y flwyddyn ddiwethaf o ran cynyddu ein cydymffurfiad a'n gweithredoedd yn unol â'r ymrwymadau sydd yn ein Cynllun Iaith Gymraeg.

Yn gywir iawn



**Tom Taylor**  
**Prif Weithredwr**

## **Agriculture and Horticulture Development Board Annual report to the Welsh Language Board 2010/11**

### **Introduction**

The Agriculture and Horticulture Development Board (AHDB) and, in particular our DairyCo division, have come a long way since agreeing our Welsh Language Scheme with the Welsh Language Board (WLB) in March 2009

Our compliance is monitored through the AHDB Head of Communications who sits on the Senior Executive Team. This annual report was approved by the AHDB Senior Executive Team at its meeting on 26 July 2011 and will be presented to the main AHDB Board at its meeting on 20 September 2011.

We intend to update the AHDB Welsh Language Scheme and Action Plans over the months ahead to reflect the initiatives we are undertaking to ensure Welsh language is a mainstream consideration.

The following top line points provide an overview of what has been achieved by AHDB during 2010/11 at a Corporate level and then at the specific DairyCo divisional level. Example hard copy materials are available on request.

### **AHDB Corporate Level**

#### **Staff Guidance**

The AHDB commitments within our Welsh Language Scheme and Action Plan were communicated to the Board and Senior Executive Team with more detailed compliance briefings provided to the communication managers across AHDB and the senior managers responsible for Human Resources. Guidance will be refreshed once the updated AHDB scheme has been agreed.

## **Y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth Adroddiad blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg 2010/11**

### **Cyflwyniad**

Mae'r Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB) ac, yn arbennig ein hadran DairyCo, wedi datblygu'n fawr ers i ni gytuno ar ein Cynllun Iaith Gymraeg gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg (ByIG) ym mis Mawrth 2009.

Pennaeth Cyfathrebu AHDB, sy'n aelod o'r Uwch Dîm Gweithredol, sy'n monitro ein cydymffuriad. Cymeradwywyd yr adroddiad blynyddol yma gan Uwch Dîm Gweithredol AHDB yn ei gyfarfod ar 26 Gorffennaf 2011 a bydd wedi'i gyflwyno gerbron prif Fwrdd AHDB yn ei gyfarfod yntau ar 20 Medi 2011.

Rydym yn bwriadu diweddarau Cynllun Iaith Gymraeg a Chynlluniau Gweithredu AHDB dros y misoedd sy'n dod i adlewyrchu'r mentrau sydd ar waith gennym i sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn un o'n hystyriaethau prif ffrwd.

Mae'r pwyntiau briglin dilynol yn rhoi darlun cyffredinol o'r hyn a gyflawnwyd gan AHDB yn ystod 2010/11 ar lefel Gorfforaethol ac yna ar lefel adrannol DairyCo yn benodol. Mae esiamplau o ddefnyddiau copi caled ar gael os gofynnir amdanynt.

### **Lefel Gorfforaethol AHDB**

#### **Canllawiau i Staff**

Cafodd ymrwymiadau AHDB yn ein Cynllun Iaith Gymraeg a'n Cynllun Gweithredu eu cyfathrebu i'r Bwrdd ac i'r Uwch Dîm Gweithredol a rhoddwyd disgrifiadau mwy manwl am gydymffurfio i'r rheolwyr cyfathrebu drwy AHDB gyfan a'r uwch reolwyr sy'n gyfrifol am Adnoddau Dynol. Bydd y canllawiau wedi'u diweddarau unwaith y cytunir ar ddiweddariad y cynllun AHDB.

## Websites

The AHDB Welsh Language Scheme is published on the AHDB website in Welsh and English language versions. This annual report will also be published in both languages on the AHDB website.

Welsh Language pages have been put on the main AHDB website, [www.ahdb.org.uk](http://www.ahdb.org.uk), and also on the sub-sites of the AHDB divisions which have a GB or UK remit – [www.potato.org.uk](http://www.potato.org.uk), [www.hgca.com](http://www.hgca.com), [www.hdc.org.uk](http://www.hdc.org.uk), [www.dairyco.org.uk](http://www.dairyco.org.uk). We still need to take into account the WLB's Bilingual Software Guidelines where relevant, when we re-develop/re-design our websites.

## Employee recruitment

We have identified workplaces and jobs where the ability to speak Welsh is essential or desirable and recruitment materials are assessed for Welsh language relevance. An outcome of this, in connection with an EU/Welsh Government-funded contract (see DairyCo specific report below), was the need to set-up a regional dairy-focused delivery team within Wales during early 2010/11. The advertisements and job descriptions were in English and Welsh and fluency in the Welsh language was sought as a 'desirable' skill. AHDB now has a DairyCo team of seven staff working in Wales of which four of the team are fluent in both written and spoken Welsh.

## Scoring system

An AHDB scoring system was agreed with the WLB in 2009 and remained in operation during the 2010/11 reporting year

## AHDB Divisional level – DairyCo

Between one fifth and one sixth of AHDB's milk levy payers are farming in Wales. There is a high proportion of Welsh dairy farmers that choose Welsh as their first language and 70% of Welsh farmers in general are Welsh speaking.

AHDB, through its DairyCo division, jointly delivers a rural development plan funded project ie: European Union/Welsh Government-funded and adhere to the Welsh Language Scheme as laid down by the Welsh Government for project activity.

## Gwefannau

Cyhoeddir Cynllun Iaith Gymraeg AHDB ar wefan AHDB mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg. Bydd yr adroddiad blynyddol yma hefyd wedi'i gyhoeddi yn y ddwy iaith ar wefan AHDB.

Mae'r tudalennau Cymraeg i'w cael ar brif wefan AHDB, [www.ahdb.org.uk](http://www.ahdb.org.uk), ac hefyd ar is-wefannau adrannau'r AHDB sy'n darparu gwasanaeth i Brydain Fawr neu'r Deyrnas Unedig - [www.potato.org.uk](http://www.potato.org.uk), [www.hgca.com](http://www.hgca.com), [www.hdc.org.uk](http://www.hdc.org.uk), [www.dairyco.org.uk](http://www.dairyco.org.uk). Mae angen i ni gymryd i ystyriaeth o hyd Ganllawiau Meddalwedd Dwyieithog ByIG lle bo'r rheiny'n berthnasol, pan fyddwn yn ailddatblygu/ailgynllunio ein gwefannau.

## Penodi gweithwyr

Rydym wedi pennu'r gweithfannau a'r swyddi lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol neu'n fanteisiol ac rydym yn asesu'r defnyddiau penodi i sicrhau eu bod yn berthnasol i'r iaith Gymraeg. Un canlyniad i hynny, mewn perthynas â contract wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru/yr Undeb Ewropeaidd (gwelwch adroddiad penodol DairyCo isod), oedd bod angen sefydlu tîm darparu rhanbarthol wedi'i ganolbwyntio ar y llaethdy yng Nghymru yn fuan yn 2010/11. Roedd yr hysbysebion a'r disgrifiadau swydd yn y Saesneg a'r Gymraeg a nodwyd bod rhuglder yn yr iaith Gymraeg yn sgil 'manteisiol'. Mae gan AHDB erbyn hyn dîm DairyCo o saith aelod o staff yn gweithio yng Nghymru ac mae pedwar o'r tîm yn rhugl yn y Gymraeg, yn llafar ac yn ysgrifenedig.

## System sgorio

Cytunwyd ar system sgorio'r AHDB gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn 2009 ac mae wedi parhau'n weithredol yn ystod blwyddyn yr adroddiad 2010/11.

## Lefel Adrannol AHDB – DairyCo

Mae rhwng pumed rhan a chweched rhan o dalwyr ardollau llaeth AHDB yn ffermio yng Nghymru. Mae cyfran uchel o ffermwyr llaeth Cymru'n dewis y Gymraeg yn iaith gyntaf ac mae 70% o ffermwyr Cymru, yn gyffredinol, yn siarad Cymraeg.

As mentioned earlier in this report, AHDB now has a DairyCo team of seven staff working in Wales of which four of the team are competent in both written and spoken Welsh. This team is fully experienced in delivering against the Welsh bilingual requirement, however there has been a recognition for additional improvements which are reflected in a proposed DairyCo 2011/12 Welsh Language Action Plan which will be agreed with the Welsh Language Board during late summer 2011.

The following top line bullet points provide an overview of what has been achieved by AHDB's DairyCo division during 2009/10.

#### **Delivering services**

- All Welsh exhibitions and meetings now provide a bilingual service, this also includes provision at the main Dairy Event and Livestock Show held at the NEC in England

#### **Services undertaken on our behalf by third parties**

- Tenders and briefs for activities in Wales now consider the requirements of Welsh and this is reflected within contracts

#### **Advertising, printed literature, publicity materials**

- Welsh language invitations, evaluation forms, posters, pop-ups and some publications are now in place, with further review and development planned for 2011/12
- DairyCo's Welsh newsletter, *Godro*, is produced in both Welsh and English
- Press releases are provided in Welsh on request
- Scoring system for publications now in place

#### **Communication**

- Welsh speaking staff automatically deal with Welsh correspondence/general communication
- Main DairyCo website now has Welsh welcome and holding page in place, plans for further review and improvement during 2011/12

Mae AHDB, drwy ei adran DairyCo, yn darparu prosiect wedi'i ariannu fel cynllun datblygiad gwledig ar y cyd h.y.: wedi'i ariannu gan yr Undeb Ewropeaidd/ Llywodraeth Cymru ac yn glynu at y Cynllun Iaith Gymraeg fel y mae wedi'i nodi gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gweithgareddau prosiect.

Fel y dywedwyd eisoes yn yr adroddiad hwn, mae gan AHDB erbyn hyn dîm DairyCo o saith aelod o staff yn gweithio yng Nghymru ac mae pedwar o'r tîm yn gymwys yn y Gymraeg, yn llafar ac yn ysgrifenedig. Mae'r tîm yma'n hollol brofiadol o ran cwrdd â'r gofynion dwyieithog yng Nghymru, ond gwelwyd bod angen gwelliannau ychwanegol sydd wedi'u hadlewyrchu mewn Cynllun Gweithredu Iaith Gymraeg 2011/12 arfaethedig i DairyCo a fydd wedi'i gytuno gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn wythnosau hwyr yr haf 2011.

Mae'r pwyntiau bwled briglin dilynol yn rhoi darlun cyffredinol o'r hyn a gyflawnwyd gan adran DairyCo AHDB yn ystod 2009/10.

#### **Darparu gwasanaethau**

- Mae'r holl arddangosfeydd a chyfarfodydd yng Nghymru'n darparu gwasanaeth dwyieithog erbyn hyn. Mae hyn hefyd yn cynnwys y ddarpariaeth yn y brif Sioe Da Byw a Digwyddiad y Llaethdy a gynhelir yn yr NEC yn Lloegr.

#### **Gwasanaethau y bydd trydydd parti yn eu darparu ar ein rhan**

- Mae'r tendrau a'r disgrifiadau ar gyfer y gweithgareddau yng Nghymru'n ystyried gofynion y Gymraeg erbyn hyn ac mae hynny wedi'i adlewyrchu mewn contractau.

#### **Hysbysebu, defnydd gwybodaeth mewn print, defnyddiau cyhoeddusrwydd**

- Mae gwahoddiadau, ffurflenni gwerthuso, poster, hysbysebion naid a rhai cyhoeddiadau Cymraeg yn eu lle erbyn hyn, ac mae adolygiad a datblygiad pellach ar y gweill ar gyfer 2011/12.
- Cyhoeddir *Godro*, taflen newyddion DairyCo yng Nghymru, yn y Gymraeg a'r Saesneg

### **Corporate Identity**

- Dual language templates are now in use via Wales Dairy Partnership Agreement

### **Staffing**

- Wales-based team now recruited with four Welsh speakers

### **Internal arrangements**

- Established a working group to push forward delivery of the Welsh Language Scheme
- Suitably qualified translators now used regularly

**Date: July 2011**

- Darperir datganiadau i'r wasg yn y Gymraeg os gofynnir am hynny
- Mae system sgorio ar waith erbyn hyn ar gyfer cyhoeddiadau

### **Cyfathrebu**

- Mae staff sy'n siarad Cymraeg yn ymdrin yn awtomatig â gohebiaeth/gyfathrebiad cyffredinol yn y Gymraeg
- Mae gan brif wefan DairyCo dudalen groesawu Gymraeg a thudalen Gymraeg dros dro i aros cyfieithiad/gynnwys, ac mae cynlluniau gennym i'w hadolygu a'u gwella ymhellach yn 2011/12

### **Hunaniaeth Gorfforaethol**

- Defnyddir templedi dwyieithog erbyn hyn drwy Gytundeb Partneriaeth Llaethdy Cymru

### **Staffio**

- Mae tîm sydd wedi'i seilio yng Nghymru gennym erbyn hyn ac mae ynddo bedwar aelod sy'n siarad Cymraeg

### **Trefniadau mewnol**

- Rydym wedi sefydlu gweithgor i hybu gweithrediad y Cynllun Iaith Gymraeg
- Defnyddir cyfieithwyr sydd â chymwysterau priodol yn rheolaidd erbyn hyn

**Dyddiad: Gorffennaf 2011**